# BBC
# TRWYDDEDU TELEDU

# POLISI LLEOEDD TRWYDDEDADWY

**[Noder:** cafodd rhai rhannau o'r ddogfen hon eu golygu gan fod y wybodaeth wedi'i heithrio dan adrannau 31(1)(a), (b), (d) ac (g) a (2)(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith, yn benodol y byddai dadlennu, neu byddai dadlennu'n debygol o, niweidio atal neu ganfod trosedd, restio neu erlyn troseddwyr, casglu ffi'r drwydded a gallu'r BBC i gyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus o ran materion o'r fath. Y rheswm yw eu bod yn cynnwys gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n ceisio osgoi ffi'r drwydded. Mae'r rhannau a olygwyd yn cael eu dangos fel XXX.

Cafodd rhannau eraill o'r ddogfen hon eu golygu dan adran 22(1)(a) y Ddeddf sy'n ymwneud â chyhoeddi yn y dyfodol, yn benodol fod y wybodaeth yn cael ei dal gyda golwg ar ei chyhoeddi gan y BBC rywbryd yn y dyfodol. Mae'r rhannau hyn yn cael eu dangos fel [redacted].

[Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag]

# Mynegai


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Pwrpas | 4 |
| 2. | Hyd a lled | 4 |
| 3. | Cyd-destun Cyfreithiol | 4 |
| 4. | Diffiniadau | 5 |
| 5. | Egwyddorion Cyffredinol | 5 |
| 6. | Methodoleg | 5 |
| Atodiad I | Termau | 9 |
| Atodiad II | Y Drefn Uwchgyfeirio | 11 |
| Atodiad III | Rhesymeg | 12 |
| Atodiad IV | Siart lif A – Adeiladau Preswyl | 13 |
| Atodiad V | Siart lif B1 – Adeiladau Busnes (Un Safle) | 14 |
| Atodiad VI | Siart lif B2 – Adeiladau Busnes (Safle) | 15 |

## 1. Pwrpas

1.1 Diffinio lleoedd sy'n cynrychioli 'lle trwyddedadwy' er dibenion gweithredu Deddf Cyfathrebu 2003 a Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004.

1.2 'Lle trwyddedadwy' yw lle y bydd trwydded deledu yn awdurdodi gosod a defnyddio derbynyddion teledu neu, os na chyflwynwyd trwydded deledu, y lle a fydd angen un petai derbynnydd teledu yn cael ei osod neu ei ddefnyddio.

## 2. Hyd a lled

2.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer adeiladau sy'n cael eu defnyddio am y dibenion canlynol:

- busnes;
- preswyl;
- ysbytai; ac
- addysg.

2.2 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer adeiladau lle bydd offer derbyn teledu yn cael ei osod neu ei ddefnyddio dros dro a hefyd yn barhaol.

2.3 Mae'r polisi hwn i'w ddefnyddio i bennu'r lle y bydd trwydded deledu yn caniatáu gosod a defnyddio derbynyddion teledu ac, yn ei dro, y lle y gallai fod yn ofynnol cael trwydded deledu. Fodd bynnag, er bod y polisi hwn yn pennu'r rheolau a fydd yn gymwys yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd nifer o sefyllfaoedd anarferol na ellir eu pennu trwy gyfeirio at y rheolau hyn ac mewn perthynas â hwy y bydd angen gwneud penderfyniadau eithriadol. Felly bydd y BBC yn dal gafael ar ddisgresiwn i bennu lleoedd sy'n cynrychioli lle trwyddedadwy.

## 3. Cyd-destun Cyfreithiol

3.1 Mae Deddf Cyfathrebu 2003 yn amodi bod yn rhaid i osod a defnyddio derbynnydd teledu gael ei awdurdodi gan drwydded deledu. Mae Deddf Cyfathrebu 2003 hefyd yn caniatáu i'r BBC gyflwyno trwydded deledu 'yn ddarostyngedig i gyfryw gyfyngiadau ac amodau y mae'r BBC yn eu barnu'n briodol'. Gall cyfyngiad neu amod gynnwys 'y lleoedd lle bydd gosod a defnyddio'r derbynnydd teledu yn cael ei awdurdodi gan y drwydded' (adran 364(2)(c)).

3.2 Mae'r polisi yn gymwys yn unig ar gyfer trwyddedau teledu 'ar ffurf gyffredinol/ar ffurf luosog', hynny yw trwyddedau teledu sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas ag un lle (neu leoedd lluosog) a nodir ar y drwydded ac sy'n caniatáu defnydd mewn mannau eraill megis cerbydau a charafanau, yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a nodir.

3.3 Nid yw'r polisi yn gymwys ar gyfer trwyddedau Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC) nac ar gyfer trwyddedau Gwestai, Lletygarwch ac Unedau Symudol. Y rheswm yw fod Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004 yn nodi'n benodol y lleoedd y bydd y mathau hyn o drwyddedau yn awdurdodi gosod a defnyddio derbynyddion teledu; nid oes gan y BBC ddisgresiwn i bennu'r lleoedd y mae trwyddedau o'r fath yn gymwys. Ar gyfer trwyddedau ARC, y lleoedd a awdurdodir gan drwydded deledu yw preswylfeydd gofal preswyl (yn achos grŵp o breswylfeydd, e.e. tai gwarchod ) ac ystafelloedd byw neu ystafelloedd gwely a ddarperir i breswylwyr breswylio ynddynt (mewn mathau eraill o lety gofal preswyl). Ar gyfer trwyddedau Gwestai, Lletygarwch ac Unedau Symudol, y lleoedd trwyddedadwy perthnasol yw unedau lletygarwch, y gwesty neu unedau symudol.

## 4. Diffiniadau

4.1 Er dibenion y polisi hwn, dylai'r diffiniadau a restrir yn **Atodiad I** fod yn gymwys i'r termau canlynol:

- "Rhwystr"
- "Busnes"
- "Terfyn cyffredin"
- "Ysbyty"
- "Lloches"
- "Tai sefydliadol"
- "Lojar"
- "Terfyn corfforol"
- "Adeiladau preswyl"
- "Safle"

## 5. Egwyddorion Cyffredinol

5.1 Dylai dulliau ar gyfer pennu a yw lle yn drwyddedadwy amrywio gan ddibynnu a yw lle'n cael ei ddefnyddio er dibenion:

- Preswyl
- Busnes
- Ysbytai; neu
- Addysg

5.2 Os bydd dryswch ynghylch a yw lle yn drwyddedadwy ar wahân, dylid dechrau ar y drefn uwchgyfeirio a amlinellir yn **Atodiad II**.

5.3 Gall statws lle trwyddedadwy newid pan fydd newid amgylchiadau yn y lle neilltuol hwnnw (e.e. newidiadau i natur gorfforol y lle neu i'r diben y mae'n cael ei ddefnyddio).

## 6. Methodoleg

6.1 Mae'r rhesymeg dros gymhwyso dulliau pennu amrywiol yn cael ei hamlinellu yn y tabl yn **Atodiad III**.

### Adeiladau preswyl

6.2 Yn nodweddiadol, dylai adeilad preswyl gynrychioli un lle trwyddedadwy a dylai un drwydded fod yn ofynnol.

6.3 Fodd bynnag, bydd adeilad preswyl yn cynrychioli mwy nag un lle trwyddedadwy os yw'r adeilad hwnnw'n cynnwys lleoedd ar wahân oddi mewn iddo. Gellir ystyried bod lle ar wahân os:

- oes ganddo drefniadau cyfreithiol ar wahân
- yw ar wahân yn gorfforol/hunangynhwysol a/neu os
- oes ganddo drefniadau gweinyddol ar wahân

oddi wrth weddill yr adeiladau (fel arfer bydd yn ofynnol cael cyfuniad o'r elfennau hyn).

6.4 Os bydd adeiladau preswyl yn cynnwys mwy nag un lle trwyddedadwy, dylai fod yn ofynnol cael trwydded ar gyfer yr adeilad preswyl ei hun ac ar gyfer pob lle ar wahân o'i fewn (gan dybio bod derbynnydd teledu wedi'i osod ac yn cael ei ddefnyddio yn yr adeiladau preswyl ac ym mhob un o'r lleoedd ar wahân).

<u>Cyfrifo sawl lle trwyddedadwy sy'n bodoli o fewn adeilad preswyl a sawl trwydded ddylai fod yn ofynnol</u>

6.5 I gyfrifo faint o leoedd trwyddedadwy sy'n bodoli o fewn adeilad preswyl a sawl trwydded ddylai fod yn ofynnol, dylid dilyn y camau canlynol:

(i) Nodi a oes unrhyw leoedd y gellid eu hystyried ar wahân oddi wrth weddill yr adeiladau preswyl.

(ii) Ar gyfer pob lle ar wahân posib, cymhwyso **Siart lif A** (atodir yn **Atodiad IV**) i bennu a oes lle trwyddedadwy ar wahân.

(iii) Cyfrifo cyfanswm nifer y trwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer yr adeiladau preswyl trwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\mathbf{A + B = C}$$

ble

**A** = **nifer y lleoedd** sy'n cael eu pennu trwy ddefnyddio **Siart lif A** i fod yn drwyddedadwy ar wahân

**B** = **1** (sef gweddill yr adeiladau) **neu 0** (os yw'r adeiladau wedi'u hanheddu trwy gyfrwng trefniant rhannu t**ŷ** sydd wedi'i osod ar wahân ble bydd o leiaf un preswylydd eisoes yn meddu ar drwydded i drwyddedu eu hystafell a bod gweddill yr adeiladau yn cynnwys mannau cymunedol yn unig)

**C** = **cyfanswm nifer y trwyddedau** sy'n ofynnol ar gyfer yr adeilad preswyl

## Safleoedd busnesau

6.6 Busnesau sy'n anheddu un adeilad: Yn nodweddiadol, dylai adeiladau busnes gynrychioli un lle trwyddedadwy a dylai un drwydded fod yn ofynnol.

6.7 Fodd bynnag, bydd adeilad busnes yn cynrychioli mwy nag un lle trwyddedadwy os yw'n cynnwys lleoedd ar wahân o'i fewn. Gellir ystyried bod lle ar wahân os:

- oes ganddo drefniadau cyfreithiol ar wahân
- yw ar wahân yn gorfforol/hunangynhwysol a/neu os
- yw'n cael ei ddefnyddio er diben pendant a chlir

oddi wrth weddill yr adeiladau (fel arfer bydd yn ofynnol cael cyfuniad o'r elfennau hyn).

6.8 Os bydd adeilad busnes yn cynrychioli mwy nag un lle trwyddedadwy, dylai trwydded fod yn ofynnol ar gyfer yr adeilad busnes ei hun ac ar gyfer pob lle ar wahân o'i fewn (gan dybio bod derbynnydd teledu wedi'i osod ac yn cael ei ddefnyddio yn yr adeilad busnes ac ym mhob un o'r lleoedd ar wahân).

6.9 Safleoedd busnes: Os bydd busnes yn anheddu safle busnes yn llwyr, gall y safle busnes gynrychioli un lle trwyddedadwy a gall un drwydded fod yn ofynnol. Fodd bynnag lle bydd hyn yn wir, ni ddylai ei drwydded drwyddedu mannau sy'n cael eu hanheddu gan fusnesau trydydd parti na chael eu defnyddio er diben sydd heb fod yn fusnes (e.e. llety preswyl).[1]

Cyfrifo sawl lle trwyddedadwy sy'n bodoli o fewn adeiladau busnes a sawl trwydded ddylai fod yn ofynnol

6.10 Busnesau sy'n anheddu un adeilad: I gyfrifo sawl lle trwyddedadwy sy'n bodoli o fewn adeilad busnes a sawl trwydded ddylai fod yn ofynnol, dylid dilyn y camau canlynol:

(i) Nodi a oes unrhyw leoedd eraill a allai gael eu hystyried ar wahân oddi wrth weddill yr adeiladau busnes.

(ii) Ar gyfer pob lle ar wahân posib, cymhwyswch **Siart lif B1** (atodir yn **Atodiad V**) i bennu a oes lle trwyddedadwy ar wahân.

(iii) Cyfrifwch gyfanswm nifer y trwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer yr adeiladau busnes trwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol:

$$\mathbf{A + B = C}$$

ble

**A** = **nifer y lleoedd** a bennir trwy ddefnyddio Siart lif B i fod yn drwyddedadwy ar wahân

**B** = **1** (sef gweddill yr adeiladau)

**C** = **cyfanswm nifer y trwyddedau** sy'n ofynnol ar gyfer yr adeilad busnes

[1] I bennu statws trwyddedadwy'r mannau hyn, gweler paragraffau 6.5 a 6.10.

6.11 Safleoedd busnes: I sefydlu a ellir ystyried bod y busnes yn anheddu safle busnes a thrwy hynny a yw'n cynrychioli un lle trwyddedadwy, cymhwyswch **Siart lif B2** (atodir yn **Atodiad VI**).

## Safleoedd ysbyty

6.12 Dylai ysbyty fod yn un lle trwyddedadwy. Fodd bynnag, ni ddylai ei drwydded drwyddedu mannau sy'n cael eu hanheddu gan fusnesau trydydd parti[1].

## Llochesi

6.13 Dylai Lloches fod yn un lle trwyddedadwy. Mae hyn yn cynnwys mannau cyffredin yn ogystal ag unrhyw fannau eraill a breswylir gan unigolion sy'n defnyddio'r llochesi. Nid yw'n cynnwys llety staff.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[1] I bennu statws trwyddedadwy'r busnesau hyn, gweler paragraffau 6.6 – 6.11.

## Atodiad 1: Termau

Ym mhob achos, mae dehongliad Saesneg plaen (*plain English*) yn ddewisol a dylid defnyddio geiriau yn eu hystyr arferol. Disgwylir y bydd cynseiliau yn cael eu sefydlu wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, a gallai fod yn ofynnol eu hadlewyrchu yn y diffiniadau hyn.

**Rhwystr**
Rhywbeth sy'n rhannu neu'n atal mynediad i bobl heb awdurdod, e.e. ffens neu ddrws wedi'i gloi.

**Busnes**
Sefydliadau sy'n cynnal busnes neu broffesiwn er elw neu fel arall (gan gynnwys masnachwyr unigol). Mae gan hwn ystyr mewn Saesneg plaen (*plain English*)[2].

**Terfyn cyffredin**
Dylai terfyn cyffredin fod â dehongliad synnwyr cyffredin ac ni ddylid ei ddadansoddi i arwain at benderfyniadau y gellid eu gweld yn anarferol neu afresymegol. Gellir defnyddio'r ffactorau canlynol i gynorthwyo i bennu:

- A yw'r terfyn yn rhesymegol a greddfol;
- Ffyrdd trwodd (sy'n gorfod rhannu'r safle);
- A oes gan yr eiddo un neu fwy o gyfeiriadau (mae cyfeiriadau lluosog yn arwydd o leoedd lluosog); a
- Chynlluniau y gofrestrfa tir neu gynlluniau eraill o'r eiddo.

**Ysbyty**
Sefydliad ar gyfer derbyn a thrin pobl sy'n dioddef o salwch gan gynnwys derbyn a thrin pobl yn ystod gwellhad tymor byr neu hir neu bersonau sydd angen adferiad meddygol. Mae'r term yn cynnwys clinigau, fferyllfeydd ac adrannau cleifion allanol a gynhelir mewn cysylltiad ag unrhyw gartref neu sefydliad o'r fath ac mae'n eithrio lle y bydd pobl yn byw yn barhaol.[3]

**Tai sefydliadol**
Sefydliadau sy'n lletya nifer o bobl mewn man neu adeilad diffiniedig (amlddeiliadaeth) er diben penodol ac a lywodraethir neu a oruchwylir gan sefydliad ambarél mwy.

**Lojar**
Unigolyn sy'n rhentu ystafell neu fan penodedig mewn adeilad preswyl oddi wrth landlord sydd hefyd yn preswylio yn yr adeilad preswyl ond nid yw'n cynnwys aelod o deulu'r landlord megis teidiau a neiniau y landlord, plant, siblingiaid (gan gynnwys hanner siblingiaid) neu blant maeth. (Mae'r diffiniad o deulu yn Atodlen 4 Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004 yn gymwys.)

**Terfyn corfforol**

Yr hyn sy'n dangos neu'n gosod rhyw derfyn. Yn y cyd-destun hwn, gallai hyn gynnwys ffordd, afon, hawl tramwy cyhoeddus, ffens, gwrych neu amderfyn arall. Gall hefyd gynnwys gwahanfuriau, gan ddibynnu ar natur yr achos.

**Llochesi**
Safle ar gyfer rhoi lloches a diogelwch rhag niwed i bobl sy'n cael eu hailgartrefi dros dro oherwydd cam-drin domestig, ac sy'n breswyl am gyfnodau byr neu ganolig.

**Adeiladau preswyl**

---

2 Mae'r diffiniad hwn yn dal elusennau, ymddiriedolaethau a phob busnes arall ni waeth sut maent wedi'u strwythuro ac a ydynt yn gorfforedig.

3 O adran 275 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.


Er dibenion y polisi hwn, dylai 'adeiladau preswyl' gynnwys unrhyw adeiladau sy'n cael eu defnyddio er dibenion preswyl gan gynnwys adeiladau domestig a thai sefydliadol ond heb gynnwys safleoedd Ysbytai, Llochesi a lleol Addysgol (y darperir ar eu cyfer ar wahân).

**Safle**

Mae safle yn berthnasol i adeiladau annomestig yn unig.  Gweler y nodyn eglurhaol (BBC010A) am esboniad pellach ar safleoedd.

## Atodiad II: y drefn uchgyfeirio

Os bydd dryswch ynghylch a yw lle yn drwyddedadwy ar wahân, dylid dechrau ar y drefn uchgyfeirio ganlynol.



## Atodiad III: rhesymeg

Mae'r rhesymeg dros gymhwyso methodolegau gwahanol i bennu a yw lle yn drwyddedadwy ac, os felly, a oes mwy nag un lle trwyddedadwy o'i fewn, yn cael ei amlinellu yn y tabl isod.

| Math o adeilad | Rhesymeg dros wahanol reolau polisi sy'n gymwys |
|---|---|
| Preswyl | Bydd unigolion yn anheddu lleoedd er dibenion preswylio mewn amrywiaeth eang o drefniadau byw. Gall hyn effeithio ar a yw lle i'w ddosbarthu'n drwyddedadwy ac, os felly, sawl lle trwyddedadwy a gynhwysir o'u mewn. |
| Busnes | Mae'r sail y mae adeilad yn cael ei anheddu er dibenion rhedeg busnes yn hanfodol wahanol i'r sail y mae adeilad yn cael ei anheddu er dibenion preswyl neu ddibenion eraill (gan iddo gael ei anheddu er dibenion busnes). Mae natur gorfforol adeiladau busnes yn aml hefyd yn wahanol iawn i eiddo adeiladau preswyl neu adeiladau eraill.<br><br><u>Safleoedd busnes:</u> Mewn rhai achosion byddai'n ormodol, annheg ac yn ddealltwriaeth sy'n groes i synnwyr cyffredin bod ar y lle dan sylw angen trwyddedau ar wahân os yw busnes yn anheddu safle busnes. |
| Ysbytai | Bydd ysbytai yn aml yn cael eu hanheddu gan gleifion er dibenion heblaw preswylio neu fusnes. Byddant hefyd yn aml yn cynnwys ar y safle un neu fwy o fusnesau trydydd parti i wella'r ffordd y rhedir yr ysbyty a phrofiad cleifion ac ymwelwyr. |
| [redacted] | [redacted] |
| Llochesi (ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig) | Mae llochesi yn debyg i ysbytai sy'n cael eu trin fel un lle trwyddedadwy. Fel gydfag ysbyty, fel arfer bydd unigolion yn breswyl am gyfnodau byr neu ganolig ac na fyddent fel arall mewn perygl o niwed, ond heb fod yn byw yn yr adeiladau yn barhaol. |

## Atodiad IV: Siart lif A - Adeiladau Preswyl

| | | Pwynt | Sgôr |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau cyfreithiol ar wahân** | | | |
| A oes gan breswylydd <*y lle*> gytundeb tenantiaeth ar wahân (ar lafar neu ar bapur) gyda'r landlord i anheddu <*y lle*>? | Oes | XXX | |
| | Na | XXX | |
| A yw preswylydd <*y lle*> yn lojar neu'n westai sy'n talu? | Ydi | XXX | |
| | Na | XXX | |
| **Ar wahân yn gorfforol/hunangynhwysol** | | | |
| A yw <*y lle*> yn hunangynhwysol (h.y. mynedfa allanol ar wahân a chyfyngedig, toiled, cyfleusterau ymolchi a choginio)? | Ydi | XXX* | |
| | Na | XXX | |
| A yw preswylydd <*y lle*> yn gallu eithrio eraill rhag cael mynediad i <*y lle*> (e.e. trwy gyfrwng clo)? | Ydi | XXX | |
| | Na | XXX | |
| **Trefniadau gweinyddol ar wahân** | | | |
| A yw <*y lle*> yn derbyn biliau ar wahân ar gyfer unrhyw gyfleustodau (e.e. llinell dir, nwy, trydan)? | Ydi | XXX** | |
| | Na | XXX | |
| **Cyfanswm sgôr:** | | | |

Ble =/> XXX = lle trwyddedadwy ar wahân
< XXX = ddim lle trwyddedadwy ar wahân

** = XXX

## Atodiad V: Siart lif B1 - Adeiladau Busnes (Un Adeilad)

| | Pwynt | | Sgôr |
|---|---|---|---|
| **Trefniadau cyfreithiol ar wahân** | | | |
| A oes gan breswylydd <*y lle*> ei drefniadau cyfreithiol ar wahân (ar bapur neu ar lafar) i breswylio? | Oes | XXX | |
| | Na | XXX | |
| **Ar wahân yn gorfforol/hunangynhwysol** | | | |
| A oes terfynau neu rwystrau corfforol o amgylch <*y lle*> yn dangos bod <*y lle*> ar wahân? | Oes | XXX | |
| | Na | XXX | |
| A yw <*y lle*> yn hunangynhwysol (e.e. mynedfa allanol ar wahân a chyfyngedig, derbynfa, rhwydweithiau TG a ffôn ac ati)? | Ydi | XXX | |
| | Na | XXX | |
| A yw preswylydd <*y lle*> yn gallu eithrio eraill rhag cael mynediad i <*y lle*> (e.e. trwy gyfrwng clo neu system ddiogelwch)? | Ydi | XXX | |
| | Na | XXX | |
| **Dibenion pendant a chlir** | | | |
| A yw <*y lle*> yn cael ei ddefnyddio er diben pendant a chlir? | Ydi | XXX | |
| | Na | XXX | |
| A yw <*y lle*> yn derbyn biliau ar wahân ar gyfer unrhyw gyfleustodau (e.e. llinell dir, nwy, trydan)? | Ydi | XXX* | |
| | Na | XXX | |
| **Cyfanswm sgôr:** | | | |

Ble **=/**> XXX = lle trwyddedadwy ar wahânol
< XXX = ddim lle trwyddedadwy ar wahân

* = XXX

## Atodiad VI: Siart lif B2 - Adeiladau Busnes (Safle)

